# Papur Bwrdd Cyfoeth

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur** | Strategaeth Llesiant, Iechyd a Diogelwch Cyfoeth Naturiol Cymru 2018–2021 |
| **Cyfeirnod y papur:** | Papur 28.18 |
| **Noddwyd y papur gan:**<br>**Awdur y papur:** | Ashleigh Dunn<br>Andrew Johnson |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | Penderfyniad |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru gadarnhau Strategaeth Llesiant, Iechyd a Diogelwch Cyfoeth Naturiol Cymru 2018–2021 yn dilyn cyfnod craffu a chymeradwyaeth gan y Pwyllgor Perfformiad a Risg ar 7 Mehefin 2018. |
| **Angen penderfyniad:** | Oes |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** | **Effaith ar ein pobl**<br>Bydd mabwysiadu'r rhaglen arfaethedig yn ein galluogi i feithrin diwylliant sy'n cefnogi ein gwerthoedd ac sy'n gwella ein safonau iechyd, diogelwch a llesiant.<br><br>**Effaith ar Cyfoeth Naturiol Cymru**<br>Bydd mabwysiadu'r rhaglen arfaethedig yn ein galluogi i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a'n galluogi i ymgorffori newidiadau mewn deddfwriaeth iechyd a diogelwch, gan ragori ar safonau lle y bo'n bosib. |

**Mater**

1. Gweledigaeth gorfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru yw arwain y ffordd i ddyfodol gwell i Gymru drwy reoli amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy. Mae'r strategaeth hon yn gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal ei weithgareddau bob tro mewn ffordd ragweithiol sy'n atal niwed ac afiechyd i'n staff a'r rhai sy'n cysylltu â ni.

2. Rydym yn ymgymryd â llawer o weithgareddau risg uchel y mae'n rhaid eu cynnal mewn modd diogel. Er enghraifft, rydym yn cynaeafu coedwigoedd, yn gweithio'n fynych mewn dŵr neu ger dŵr, yn cyflogi llawer o weithwyr unigol ac o bell, yn mynd i ddigwyddiadau, ac yn rheoleiddio cyfleusterau peryglus. Dyma lond llaw yn unig o'r gweithgareddau risg uchel y mae ein staff yn ymgymryd â hwy'n fynych. Mae cyfrifoldeb gennym hefyd dros

ddiogelwch y cyhoedd ar ein tir a'n hasedau - er enghraifft, ar yr ystâd goedwig, mewn gwarchodfeydd natur ac ar asedau perygl llifogydd.

3. Mae gennym staff hefyd sydd wedi profi newidiadau sylweddol yn y sefydliad ac a fydd yn parhau i brofi newidiadau yn y dyfodol, felly mae materion yn ymwneud â llesiant a gwydnwch staff o bwys mawr.

**Asesiad**

4. Mae'r ddogfen hon yn mapio'r cyfeiriad strategol ar gyfer llesiant, iechyd a diogelwch dros y tair blynedd nesaf. Mae'n nodi sut rydym yn bwriadu trefnu ein hunain mewn ffordd gynlluniedig a systematig i gynnal cydymffurfiaeth gyfreithiol fel gofyniad lleiaf ac i hyrwyddo diwylliant llesiant, iechyd a diogelwch cadarnhaol a chynaliadwy i wella perfformiad yn barhaus.

5. Er mwyn cyflwyno'r strategaeth hon, mae'n amlwg fod angen arweinyddiaeth weladwy, gref a pharhaus gan y Bwrdd, y Tîm Gweithredol a'r Tîm Arweinyddiaeth a chan yr holl reolwyr llinell. Ni ddylid ystyried yr ymrwymiad hwn i lesiant, iechyd a diogelwch fel blaenoriaeth yn unig ond dylai gael ei ymgorffori ym mhopeth a wnawn. Mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar newid diwylliant ar bob lefel, yn seiliedig ar herio a chefnogi ein gilydd.

6. Mae'r ddogfen yn cadarnhau ein huchelgais ar gyfer llesiant, iechyd a diogelwch. Mae'r ddogfen yn nodi lle'r ydym ar hyn o bryd ar sail yr ail arolwg hinsawdd i staff a gwybodaeth arall, e.e. adborth uniongyrchol gan staff ac adborth trwy'r fforwm, ond yna mae'n nodi ein huchelgais ar gyfer symud ymlaen i ble'r ydym am fod dros y tair blynedd nesaf. Mae'r arolwg wedi rhoi diweddariad i ni o'n tystiolaeth sylfaenol, a ddangosodd, mewn cymhariaeth â sefydliadau eraill, fod ein perfformiad presennol yn parhau i fod yn waeth na'r cyffredin. Fodd bynnag, rhoddodd yr ymatebion ysgrifenedig i'r arolwg gyfoeth o wybodaeth i ni ar y risgiau allweddol sy'n effeithio ar ein staff, e.e. llesiant, straen, llwyth gwaith, arweinyddiaeth. Ein huchelgais o hyd yw cyflawni'r sgorau 'cyfartalog' ar gyfer y diwydiant cyfan fel man cychwyn, gydag uchelgais dros gyfnod o dair blynedd i gyflawni sgorau y mae modd eu cymharu â rhai sefydliad sy'n perfformio ar lefel uchel.

7. Cyfrannwr sylweddol at y nodau hyn fydd galluogi ein system rheoli iechyd a diogelwch i ennill ardystiad Safon Rheoli Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Ryngwladol ISO 45001:2018 a'r Safon Iechyd Corfforaethol fel ffordd o ddangos ein hymrwymiad i arfer gorau a gydnabyddir yn fyd-eang, gan wella ein henw da gyda staff a rhanddeiliaid newydd a phresennol, gan gynnwys y rhai mewn diwydiant a busnes.

8. I fwyafu effaith y strategaeth newydd hon, rydym wedi nodi'r prif nodau strategol ar ein cyfer ni fel sefydliad, sy'n gysylltiedig â phum blaenoriaeth strategol. Rydym yn deall a byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd risg uchel ond mae'n rhaid i ni hefyd fod yn gynhwysfawr wrth fynd i'r afael â risg ym mhob maes o'r busnes. Yn ogystal â chynnwys nodau a blaenoriaethau, mae'r ddogfen newydd hon hefyd yn cynnwys dangosyddion perfformiad a fydd yn llywio ein gwaith a'n helpu i ddysgu a bod y gorau y gallwn fod.

9. I grynhoi, mae'r strategaeth hon wedi'i dylunio i sicrhau bod yr holl bartïon yn chwarae eu rhan i gefnogi system rheoli llesiant, iechyd a diogelwch sy'n rhagweithiol a chadarn ac sy'n bodloni goblygiadau statudol ac yn lleihau'r risg i'r rhai yr effeithir arnynt gan ein gweithgareddau. Bydd dull blaengar o welliant parhaus dros y tair blynedd nesaf yn ein helpu i wireddu ein huchelgais o gyflawni ardystiad i system rheoli iechyd a diogelwch achrededig, gan ddarparu rhagoriaeth weithredol fel cydran hanfodol wrth gyflawni ein gweledigaeth gorfforaethol i sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru'n cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn modd cynaliadwy nawr ac yn y dyfodol.

**Risgiau**

10. Bydd oedi estynedig wth gyflwyno'r strategaeth a'r blaenoriaethau strategol yn cael effaith ar ein gallu i ddatblygu'r diwylliant sy'n cefnogi ein gwerthoedd ac sy'n gwella ein safonau iechyd, diogelwch a llesiant, ac mae'n peri risg o fethu â chydymffurfio'n gyfreithiol.

**Goblygiadau ariannol**

11. Ceir goblygiadau ariannol uniongyrchol, yn bennaf drwy'r angen i ariannu datblygiadau mewn systemau, hyfforddiant ac ardystio. Fodd bynnag, bydd y newid mewn ffocws yn ein galluogi i feithrin diwylliant sy'n cefnogi ein gwerthoedd ac sy'n gwella ein safonau iechyd, diogelwch a llesiant, a bydd yn sicrhau ein bod yn mynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth ddeddfwriaethol yn unig.

**Cyfathrebu ac ymgysylltu**

12. Ymgynghorwyd â'r Tîm Llesiant, Iechyd a Diogelwch, y Pwyllgor Llesiant, Iechyd a Diogelwch Cenedlaethol a chynrychiolwyr fforymau ymgysylltu'r cyfarwyddiaethau yn ystod cyfnod drafftio'r dogfennau a, lle y bo'n briodol, mae unrhyw sylwadau wedi cael eu cynnwys.

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

13. Nid yn berthnasol ar gyfer y papur hwn ond cynhaliwyd un ar gyfer y strategaeth. Caiff camau gweithredu'r cynllun gwella eu hadolygu ar gyfer asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb pan gaiff eu cyflawni.

Atodiadau:

1. Strategaeth Llesiant, Iechyd a Diogelwch